



# EMYR PRICE a'r stori tu ôl i'r gyfrol

HOLI'R hynafgwr Owen Jones, Plas Brain, Llanfechell, Ynys Môn a holi Harold Wilson; cyfweld Mrs Doris Griffiths yn London Road, Caergybi a James Callaghan yn y 'Fam-Senedd'; cael sgyrsiau diddan hir â'r Arglwydd Cledwyn ym Môn a Llundain a'i dywys i ben balconi Neuadd y Dref Llangefni i'w ffilmio a chael ein stopio'n barhaus gan gyn-etholwyr dirifedi oedd eisiau gair efo 'Cledwyn' — dyna rai, yn unig, o'r myrdd brofiadau a gefais, yn ôl yn 1985, wrth dreulio misoedd maith yn llunio'r gyfres deledu, *Cledwyn* i HTV. Dangoswyd y gyfres yn gyntaf yn 1986 a'i hail-ddangos eleni ar S4C.

Profiad hirfaith, melys-chwerw yw llunio cyfres hanes ar gyfer teledu. Llunio a ffilmio cyfweliadau di-rif a wnaethom i'r gyfres *Cledwyn* — ym Môn, yng Nghymru benbaladr ac yn Llundain.

Wedyn cyfweliadau hir â'r Arglwydd Cledwyn ei hun. A'r dasg wedyn o chwilio am ffotograffau a ffilmiau ar yrfa'r gwrthrych a'r datblygiadau allweddol fu'n rhan o'i fywyd a'i amseroedd.

Chwilio a chwalu yn nociau Caerdydd yn warws hen ffilmiau TWW a HTV; tro arall i archifau ffilm Visnews yn Llundain a'r Llyfrgell Ffilm 'Genedlaethol' yn Soho a sawl sgowt i gartrefi dirifedi ym Môn i edrych ar luniau o'r gorffennol. Wedyn plethu'r cyfan yn y 'cutting room' yn waith cyfansawdd.

Wedi'r ymchwilio a'r golygu, gobeithio wedyn fod y cyfan yn dangos, yn gytbwys ac yn ddiddan, droeon gyrfa un a fu (a sydd o hyd) yn un o ffigurau gwleidyddol amlycaf Cymru y cyfnod wedi'r Ail Ryfel Byd — Cyn-Ysgrifennydd Cymru, cyn-Gadeirydd y Blaid Lafur Seneddol a thrwy'r wyth degau, Arweinydd yr Wrthblaid yn Nhŷ'r Arglwyddi.

A'r gobaith fod y gyfres yn gofyn y cwestiwn allweddol — sef a lwyddodd Cledwyn Hughes i gyplysu Llafuryddiaeth a Chymreictod, plethu gofynion ei blaid a chael drwy lywodraethau Llafur fuddiannau ieithyddol, economaidd a llywodraethol i Gymru?

* * *

IE, MARATHON o dasg fu llunio'r gyfres i'w theledu. A'r teimlad rhyfedd wedyn, ar ôl darlledu'r gyfres ar gyfrwng mor ddiflanedig — Wel! dyna fo! Diflannodd y cyfweliadau, yr archif ffilm — yr oriau dirifedi yn y 'cutting room' i ebargofiant. Dyna deledu — digwyddodd, darfu, megis seren wib.

Rhywbeth gwahanol yw llyfr. Mae iddo ryw barhad, rhyw wedd arhosol na fedd rhaglenni radio na theledu.

I mi, felly, wedi'r holl ymchwilio i'r gyfres *Cledwyn*, boddhad mawr fu cael y cyfle, yn sgîl y gyfres, i lunio llyfr ar yrfa Cledwyn Hughes. Cyhoeddwyd y gyfrol fis Mehefin, eleni, *Yr Arglwydd Cledwyn o Benrhos* — a chyfrol Saesneg hefyd.

Cyfrol yw hi sy'n dilyn patrwm y gyfres deledu. Dyfynnir rhai o'r sylwadau a gafwyd yn y rhaglen. Gwneir defnydd helaeth o'r lluniau a gasglwyd gogyfer â'r gyfres honno a rhai o'r fflyd o doriadau papurau newyddion y bûm yn eu cywain yn gefndir i'r rhaglenni.

Ond, at hynny, wrth lunio'r gyfrol, cafwyd un ychwanegiad sylweddol i'r gyfres deledu. Wedi'r gyfres, cytunodd yr Arglwydd Cledwyn i roi ar adnau, dros dro, gasgliad o'i bapurau personol i Goleg Bangor, fel y gallwn i, yno, bori trwyddynt a'u defnyddio fel rhan allweddol o'r gyfrol.

Papurau oeddent sy'n cynnwys ei ohebiaeth etholaethol ym Môn o'r pum degau ymlaen; llythyrau gan gyfeillion a gwleidyddion; papurau am ei gyfnod yn uchelfannau llywodraeth; toriadau papurau newydd a gasglodd dros y degawdau ac am gyfnod byr, allweddol yn y saith degau, tra'n Gadeirydd y Blaid Lafur Seneddol a 'chonffidant' y Prif Weinidog, Jim Callaghan, dyddiadur dadlennol.

Wrth lunio'r gyfrol, felly, bu'n bosibl i mi gynnwys y dystiolaeth ychwanegol hon nad oedd yn bosibl ei thrafod yn y gyfres deledu. Mae'r darnau dyddiadurol, yn arbennig, yn dangos yn y cyfnod 1976-78 pa mor allweddol fu rhan Cledwyn Hughes, gyda'r pact Lib-Lab 1977-8, yn fwyaf neilltuol, ond mewn sawl cyfeiriad arall hefyd, yn cadw llywodraeth Lafur Jim Callaghan ar dir y byw.

* * *

YMHLITH y nodiadau dyddiadurol a'r llythyrau hefyd, mae sawl enghraifft o dystiolaeth (na fedrais eu cynnwys yn y gyfres deledu) o ddicter yr Arglwydd Cledwyn at wleidyddion fel Neil Kinnock a Leo Abse a'u hymgyrch ffyrnig (ac effeithiol) yn erbyn y Mesur Datganoli i Gymru yn y saith degau.

Ceir yn y casgliad hwn, hefyd, ohebiaeth sy'n dangos yn y chwe degau sut y drylliwyd cynllun uchelgeisiol Cledwyn Hughes, tra'n Ysgrifennydd Cymru 1966-8, i sefydlu egin senedd Gymreig — Y Cyngor Etholedig i Gymru — a fyddai wedi gweddnewid Cymru pe bai wedi llwyddo.

Drylliwyd ef gan aelodau blaenllaw o'i blaid ei hun — gan gynnwys George Thomas a Ness Edwards.

Daeth cyfle yn y gyfrol hefyd i gynnwys detholion ehangach o bapurau newydd, er enghraifft dyfyniadau o erthyglau a ysgrifennodd Cledwyn Hughes yn y gyfres 'Wales at Westminster' i'r *Daily Post* yn y pum a'r chwe degau cynnar.

Mae fformat llyfr, hefyd, yn estyn cyfle i ddyfynnu'n helaethach gyfeiriadau newyddiadurol ar adegau allweddol, at rai o uchafbwyntiau a siomedigaethau amlycaf y gwrthrych. Ac fe ddaw'r cyfle hefyd i gyhoeddi llythyrau allweddol ar adegau cyffelyb nad oes mo'r amser i'w crybwyll mewn rhaglen ar y sgrîn fach.

Heb i mi fanylu yma, fe geir llythyrau yn y casgliad ac yn y gyfrol, pryfoclyd iawn eu gwedd, gan amryw o Gymry blaenllaw fel Syr Ifan ab Owen Edwards yn 1966 ar achlysur penodi Cledwyn Hughes yn Ysgrifennydd Cymru neu lythyr Neil Kinnock ato yn y saith degau yng nghanol holl firi 'Pi-pi' plant bach ysgolion Môn a greodd y fath helynt yng nghanol cythrwfl Datganoli i Gymru.

* * *

YN OGYSTAL â chael cynnwys tystiolaeth newydd yn y gyfrol, bu'r cyfle i lunio llyfr ar Cledwyn Hughes, yn sgîl y gyfres deledu, yn fodd hefyd i gael ceisio dadansoddi ymhellach ac yn ddyfnach holl droeon ei yrfa lawn ac arwyddocáol.

Dyna, efallai fantais amlwg y gair ysgrifenedig dros gyfrwng cyflym y sgrîn fach. Cyfle i bwyso a mesur gyrfa'r Arglwydd Cledwyn a chyfle i lunio yn fwy manwl gefndir magwrfa gymdeithasol, wleidyddol a diwylliannol gwleidydd, y bu'r ffactorau hynny mor bwysig iddo.

Heb hamdden y bywyd academaidd, nid wyf yn honni bod fy nghyfrol ar yr Arglwydd Cledwyn yn gofiant cyflawn iddo. Cyfrol yw hi, wedi'r cwbl, a welodd olau dydd, yn rhannol yn sgîl cyfres deledu.

Yn bennaf, cyfrol yw hi sy'n ceisio darlunio a dweud stori yn ddiddan, gobeithio — stori y gall y gwyliwr teledu ei mwynhau a chyfrol y gall darllenydd nad yw'n bwyta'r academig dost mewn tŵr ifori academaidd ei dilyn.

Wedi dweud hynny, ac eraill sydd i farnu hynny, gobeithio i mi lwyddo yn y gyfrol hon, i ddangos pa mor allweddol fu cyfraniad gwleidyddion Cymreig o gefndir Llafuryddol, fel Cledwyn Hughes, i fywyd politicaidd Cymru a'r Gymru Gymraeg yn ystod y cyfnod newydd a wawriodd yng Nghymru wedi'r Ail Ryfel Byd. Ni fu'r cyfraniad hwnnw heb ei ddiffygion na'i ffaeleddau ond hebddo tlotach ym mhob ystyr fyddai ein bywydau ni heddiw.

* * *

BU'N BLESER cael llunio'r gyfres deledu — cael edrych drwy'r milltiroedd o ffilm archif wrth ei pharatoi, a chael sgwrsio efo Owen Jones, Plas Brain, Llanfechell a hyd yn oed efo Harold Wilson. Eto i gyd, er mai yn y byd teledu yr enillaf fy mara menyn ar hyn o bryd, cefais rhyw wefr arbennig fis Mehefin, eleni, wrth weld y copi cyntaf o'r llyfr yn dod o'r wasg.

Rhywsut, rhywfodd, mae gweld yr hanes rhwng cloriau llyfr yn rhoi rhyw naws arhosol i'r gwaith na fedd unrhyw raglen na chyfres deledu.